Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 175 (Cy. 37) (C. 12)

# BWYD, CYMRU

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch yr isafbris y mae alcohol i'w gyflenwi amdano yng Nghymru gan bersonau penodol; ac at ddibenion cysylltiedig.

Mae erthygl 2 yn darparu mai 2 Mawrth 2020 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym holl ddarpariaethau'r Ddeddf a nodir yn yr erthygl honno ac y cyfeirir atynt isod—

(a) adran 1 at bob diben sy'n weddill;

(b) adrannau 2 i 25;

(c) Atodlen 1.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n weddill nad ydynt eisoes mewn grym.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r ddarpariaeth a ganlyn o'r Ddeddf wedi ei dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn, i'r graddau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan yr adran honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 14 Hydref 2019 | 2019/1336 (Cy. 233) (C. 45) |

*Gweler* hefyd adran 28 o'r Ddeddf am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 10 Awst 2018 (drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 175 (Cy. 37) (C. 12)

# BWYD, CYMRU

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2020

*Gwnaed* *24 Chwefror 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 28(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2020.

**Y darpariaethau sy’n dod i rym ar 2 Mawrth 2020**

**2.** Daw’r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 i rym ar 2 Mawrth 2020—

(a) adran 1 at bob diben sy’n weddill;

(b) adrannau 2 i 25;

(c) Atodlen 1.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
24 Chwefror 2020

(**1**) 2018 dccc 5.